

2015 Rhif 1624 (Cy. 208)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494
(Ffyrdd Ymadael wrth Gyfnewidfa
Queensferry, Sir y Fflint)
(Gwahardd Cerbydau Mawr Dros
Dro a Therfyn Cyflymder 30 MYA)
2015

Gwnaed 20 Awst 2015

Yn dod i rym 1 Medi 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a chyfyngu arno oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2015. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ffyrdd Ymadael wrth Gyfnewidfa Queensferry, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro a Therfyn Cyflymder 30 MYA) 2015.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 10:00 o'r gloch ar 1 Medi 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunkroad*”) yw'r darnau cyfan o ffyrdd ymadael tua'r

dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Queensferry yn Sir y Fflint.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n fwy na 3.0 metr o led, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath, fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

Atal Dros Dro

5. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A494) (Ewloe i Queensferry, Clwyd) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 1987(3) wedi eu hatal drwy hyn, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Awst 2015.

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) O.S. 1987/2245